

## newyddion Cymraeg Colegau Cymru #185 01 Mehefin 2015

**Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.**

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

**Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.**

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

### Datblygiadau Strategol

#### Swydd wag: Prif Weithredwr

Mae Colegau Cymru am benodi Prif Weithredwr newydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am arwain Colegau Cymru i sicrhau bod safbwyntiau'r sector yn cael eu clywed, bod manteision addysg bellach yn cael eu hyrwyddo a bod buddion y sector yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni hyn drwy gydweithio ag arweinwyr y sector a rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig Llywodraeth Cymru.

Dyddiad cau: hanner dydd, Llyn 15 Mehefin 2015.

[Mwy>>>](#)

#### Cam Ymlaen Wrth Brif Lifo'r Gymraeg yn y Colegau Addysg Bellach

Mae prif-ffrydio'r Gymraeg yn y colegau addysg bellach yn nod strategol i Golegau Cymru, a bu'n lansio dwy adnodd ar faes Eisteddfod yr Urdd gyda'r Prif Weinidog Carwyn Jones AC ddydd Mawrth i'r perwyl hwn, gyda'r gobaith o fwy i ddod.

[Mwy>>>](#)

#### Lansio Busnes@LlandrilloMenai

Lansiwyd cam mawr ymlaen o ran gwasanaethau i fusnes yn yr ardal yr wythnos ddiwethaf gan Grŵp Llandrillo Menai mewn brechwast busnes bywiog ym Mwyty Orme View Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos.

[Mwy>>>](#)

## Colegau o Ansawdd

### Gwobrwyo Colegau, Athrawon a Dysgwyr Arobryn

Mewn seremoni ddisglair yn Venue Cymru, Llandudno ar 21 Mai, cafodd dysgwyr ac athrawon arobryn colegau Cymru eu cydnabod, ynghyd â chwe choleg a wobrwywyd am ysgogi gwelliannau sydd o fudd i ddysgwyr.

Yr enillwyr:

- Adeiladu Partneriaethau Rhyngwladol: [Coleg Gwent](#)
- Hyrwyddo Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: [Coleg Sir Benfro](#)
- Datblygiadau Chwaraeon Rhagorol: [Y Coleg Merthyr Tudful](#)
- Hyrwyddo Dysgu Cymraeg a Dwyieithog: Coleg Sir Gâr
- Dysgu ac Addysgu: Coleg Cambria
- Defnydd o Dechnoleg: Coleg Sir Gâr
- Arloesedd yn Addysg Bellach: Coleg Penybont a Choleg Cambria
- Dysgwr y Flwyddyn: Caroline Read, [Coleg Caerdydd a'r Fro](#)
- Athro y Flwyddyn: Mary Richards, [Coleg Sir Gâr](#)

[Mwy>>>](#)

[Llyfryn y Gwobrau a'r canlyniadau'n llawn](#)

---

### Darlithydd Coleg Sir Benfro ar restr fer ar gyfer gwobr addysgu genedlaethol

Mae Jo Bradshaw, darlithydd weldio o Goleg Sir Benfro, wedi cael ei dewis i gynrychioli'r rhanbarth yng Ngwobrau Addysgu Ysbrydoledig eleni New Directions.

[Mwy>>>](#)

---

## Dilyniant Myfyrwyr

### Viva España

Bydd dwy o fyfyrwyr NPTC yn rhoi defnydd da i'w sgiliau Sbaeneg yr haf hwn ar ôl derbyn cynigion diamod gan ddau brifysgol blaenllaw.

Bydd Amy Harvey yn mynd i Barcelona i astudio Celfyddydau Perfformio a bydd Lauren Williams yn astudio Ffrangeg ac Eidaleg ym Mhrifysgol Aberystwyth (gyda bwrsariaeth o £1000!) ar ôl cwrs Sbaeneg dwys yn Sbaen dros yr haf.

[Mwy>>>](#)

---

### Myfyriwr ffilm yn cael profiad gwaith premiere

Bu myfyriwr o Goleg Gwent yn gweithio ar ffilm fer ar gyfer Academi Ffilm y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) yn ddiweddar.

Cafodd myfyrwraig y cyfryngau, Tara Williams, ei dewis i fynychu'r BFI i weithio gyda thîm o ymgeiswyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, i gynhyrchu ffilm fer.

[Mwy>>>](#)

---

## Longyfarchiadau! Llwyddiant Dysgwyr

### Helpu i greu Tîm Cymru yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru

Mae myfyrwyr yng Ngholeg Sir Gâr wedi rhagori arnynt eu hunain trwy ennill 20 o fedalau gan gynnwys 11 o fedalau aur, a hynny mewn ystod o feysydd pwnc fel rhan o Gystadleuaeth Sgiliau Cymru.

Eleni cymerodd 636 o fyfyrwyr o Gymru ran yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru, sef llwyfan datblygu ar gyfer myfyrwyr er mwyn iddynt symud ymlaen i gystadlaethau rhanbarthol y DU lle mae 95 o fyfyrwyr o Goleg Sir Gâr yn cystadlu eleni.

Mae Coleg Sir Gâr hefyd yn mentora pedwar myfyriwr allan o gyfanswm o ddeg o Gymru, sydd yn hyfforddi am le yng ngharfan y DU i gystadlu yn WorldSkills ym Mrasil, gan gynrychioli trin gwallt, gwaith metel adeiladu, plastro a systemau drywol a gwaith saer ar safle.

[Mwy>>>](#)

---

### Pobl ifanc o Gasnewydd yn ennill cystadleuaeth ledled y DU ar reoli arian

Tîm o Acorn Learning Solutions gyda chymorth ColegauCymru yn hawlio buddugoliaeth yn Rownd Derfynol y Her Arian am Oes, cystadleuaeth rheoli arian a redir gan Grŵp Bancio Lloyds.

[Mwy>>>](#)

---

### Myfyrwyr Coleg Ceredigion yn Disgleirio yn Eisteddfod yr Urdd

Yn y flwyddyn gyntaf o sefydlu aelwyd yr Urdd yn y coleg, sicrhodd myfyrwyr Coleg Ceredigion wobrau cyntaf mewn nifer o gystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.

[Mwy>>>](#)

---

### Myfyrwyr Adeiladwaith yn Rhagori mewn Cystadleuaeth Genedlaethol

Mae hyfforddeion o Grŵp Llandrillo Menai sy'n cynnwys Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor wedi cipio ystod o fedalau yn rownd Cymru cystadleuaeth Skillbuild nodedig y CITB.

Mae cymal Cymru yn un o 13 sydd yn digwydd ar draws y DU gyda'r 10 cystadleuydd uchaf o bob cwr o'r wlad yn mynd drwodd i'r rownd derfynol genedlaethol yn y Sioe Sgiliau yn NEC Birmingham ym mis Tachwedd 2015.

[Mwy>>>](#)

---

### Syniad Busnes yn Llwyddiant

Mae dau o fyfyrwyr o Grŵp o Golegau NPTC wedi cyrraedd rownd derfynol 'Built for Business' Barclays ym Mhencadlys Barclays yn Llundain fis nesaf.

[Mwy>>>](#)

---

## Tîm Coleg Caerdydd a'r Fro yn bencampwyr Boccia y Fro

Mae tîm o fyfyrwyr Mynediad Galwedigaethol o Goleg Caerdydd a'r Fro wedi ennill Pencampwriaethau Boccia Oedolion Bro Morgannwg.

[Mwy>>>](#)

---

## Gwobrau "Women in Property"

Ar rhestr fer rownd ranbarthol Gwobrau Cenedlaethol Myfyrwyr sefydliad merched ym myd eiddo yr 'Association of Women in Property' - (WiP), yr oedd dysgwraig addysg uwch o Goleg y Cymoedd, Tina Hinder.

[Mwy>>>](#)

---

## Cyfleoedd Dysgu

### Myfyrwyr Sir Gâr yn cynrychioli'r DU yng Ngwlad Belg

Mae myfyrwyr gwasanaethau cyhoeddus o Goleg Sir Gâr wedi cynrychioli Cymru a'r DU yn y digwyddiad Your Europe, Your Say yng Ngwlad Belg.

[Mwy>>>](#)

---

## Cogydd enwog, James Sommerin, yn ymweld â Choleg Caerdydd a'r Fro

Daeth y cogydd seren Michelin, James Sommerin, i Goleg Caerdydd a'r Fro yr wythnos hon i wirio gwaith y myfyrwyr Lletygarwch er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu darpar gyflogwyr. .

[Mwy>>>](#)

---

## Myfyrwyr ar y brigdrawst

Daeth myfyrwyr Coleg Gwent â blas o hudoliaeth Hollywood i Barth Ddysgu Blaenau Gwent yn ddiweddar gyda dwy noson llawn o'u sioe ddiwedd blwyddyn.

[Mwy>>>](#)

---

## Nodyn i'r Dyddiadur

### Sioeau Celf a Dylunio

Ar agor i'r cyhoedd: o 27 Mai a thrwy Mehefin, bydd Ysgol Gelf Coleg Sir Gâr yn cynnal ystod o sioeau ac arddangosfeydd diwedd blwyddyn yn cwmpasu addysg bellach hyd at lefel gradd.

[Mwy>>>](#)

Bydd sioe ffasiwn gradd Coleg Sir Gâr eleni yn cael ei gynnal yn Newton House, Llandeilo ar Fehefin 19.

[Mwy>>>](#)

---

## Colegau yn eu Cymunedau

## Myfyrwyr Eco-gyfeillgar

Cymerodd myfyrwyr Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus o Grŵp o Golegau NPTC ran yn y pedwerydd Big Beach Clean-up blynyddol gyda gweithwyr M&S hefyd yn ymuno yn ogystal â'r Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe.

[Mwy>>>](#)

---

## Myfyrwyr Trin Gwallt yn Gwirfoddoli yn yr Ysbyty

Mae myfyrwyr gwallt a harddwch Coleg Gwent wedi bod yn gwirfoddoli eu sgiliau yn Ysbyty St Woolos, gyda salon dros dro.

[Mwy>>>](#)

---

## Ailgylchu i greu cartrefi adar

Mae myfyrwyr Coleg Gwent wedi dod o hyd i ffordd arloesol o ailgylchu esgidiau gwaith hen a diangen trwy eu troi mewn i flychau adar. Maent yn bwriadu eu gwerthu a chodi arian i elusen.

[Mwy>>>](#)

---